

Ymgynghoriad ar y diwygiadau i reolau ynghylch archwiliadau iechydol a ffytoiechydol (SPS) ar fewnforion cynhyrchion o'r UE

**Crynodeb ac ymateb y Llywodraeth
Rhagfyr 2022**

Ymgynghoriad ar y diwygiadau i reolau ynghylch archwiliadau iechydol a ffytoiechydol (SPS) ar fewnforion cynhyrchion o'r UE

Cynulleidfa

Cyrff a phobl sy'n debygol o gael eu heffeithio gan gynigion i ddiwygio'r rheolau ar fewnforio cynhyrchion iechydol a ffytoiechydol (SPS) i Gymru.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a'r adborth dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar gynigion i gyflwyno deddfwriaeth i estyn y cyfnod graddoli trosiannol ac i ddileu'r eithriad i'r gofyniad ar gyfer rhag-hysbysu rhai cynhyrchion SPS sy'n dod i mewn i Gymru o Weriniaeth Iwerddon, ac ymateb y Llywodraeth.

Angen gweithredu

Dim – er gwybodaeth yn unig

Gwybodaeth bellach

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Rhaglen Rheoli Ffiniau

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: BorderInfrastructureProgramme@gov.cymru

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon a'r llythyr ymgynghori wedi eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru [Rheolaethau a seilwaith ffiniau ar ôl ymadael â'r UE | LLYW.CYMRU](#)

Cynnwys

1. Cefndir	4
2. Ymgynghoriad	6
3. Crynodeb ac ymateb: estyn y cyfnod graddoli trosiannol	7
4. Crynodeb ac ymateb: gofyniad i rag-hysbysu	10

1. Cefndir

1.1 Estyn y cyfnod graddoli trosiannol

O dan y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (OCR), roedd disgwyl i archwiliadau gael eu cyflwyno ar gyfer cynhyrchion iechydol a ffytoiechydol (SPS) a fewnforir i Gymru o fis Ionawr 2020. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) wedi gweithredu sawl estyniad i'r cyfnod graddoli trosiannol i oedi cyflwyno'r rheolaethau hyn (gyda chydysyniad Llywodraeth Cymru). Mae'r estyniad diweddaraf yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2022 pryd y bydd y gofyniad i wirio dogfennau ac archwiliadau adnabod a ffisegol o dan yr OCR yn dod i rym, oni bai bod deddfwriaeth i estyn y cyfnod graddoli trosiannol ymhellach yn cael ei gwneud.

Ar 28 Ebrill 2022, cyhoeddodd y cyn Weinidog Cyfleoedd Brexit ac Effeithlonrwydd ddatganiad ysgrifenedig a oedd yn nodi bwriad Llywodraeth y DU i atal cyflwyno rheolaethau pellach ar y ffiniau tan ddiwedd 2023, ac y byddai Llywodraeth y DU yn cyflymu ei rhaglen i ddigideiddio ffiniau Prydain. Esboniodd y byddai'r ymagwedd newydd yn cael ei chyflwyno mewn *Model Gweithredu Targed* dan arweiniad Llywodraeth y DU, i'w gyhoeddi yn hydref 2022 a'i weithredu erbyn diwedd 2023.

Yn sgil cyhoeddiad Llywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru'n derbyn na fyddai'n gwneud synnwyr ar hyn o bryd i gyflwyno'r mesurau rheoli canlynol ar wahân yng Nghymru:

- Gofyniad i symud archwiliadau iechydol a ffytoiechydol sy'n cael eu cynnal yn y gyrchfan ar hyn o bryd, i safle rheoli ffin.
- Gofyniad am ddatganiadau diogelwch ar fewnforion o'r Undeb Ewropeaidd (UE).
- Gofyniad am ragor o ardystiadau iechyd ac archwiliadau iechydol a ffytoiechydol ar gyfer mewnforynion o'r UE.
- Gofyniad i gynhyrchion iechydol a ffytoiechydol gael eu cyflwyno mewn safle rheoli ffin.
- Gwaharddiadau a chyfyngiadau ar fewnforio cigoedd oer o'r UE.

Rydym, felly'n cynnig cyflwyno deddfwriaeth i estyn y cyfnod graddoli tan 31 Ionawr 2024, byddai hyn yn oedi cyflwyno'r rheolaethau SPS sydd i ddod i rym ar 1 Ionawr 2023. Mae'r dyddiad arfaethedig yn osgoi tarfu dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Gallai rhai archwiliadau gael eu cyflwyno cyn y dyddiad hwn, a byddai Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i roi hysbysiad am unrhyw fwriad i gyflwyno archwiliadau yn gynharach er mwyn i fusnesau ac eraill allu paratoi.

Mae Llywodraeth Cymru ar ddeall y bydd deddfwriaeth debyg i estyn y cyfnod graddoli trosiannol ymhellach yn cael ei chyflwyno i ddod i rym yn Lloegr a'r Alban.

Bydd yr estyniad hwn i'r cyfnod graddoli trosiannol yn caniatáu i Lywodraeth Cymru barhau i weithio gyda llywodraethau eraill y DU i gwblhau a gweithredu'r *Model Gweithredu Targed*, i sicrhau system gydlynol, effeithiol ac effeithlon o

reolaethau, a thrwy hynny wella bioddiogelwch a lleihau'r effaith ar fewnforwyr. Os gellir cyflawni system fewnforio ddiogel, gadarn ac effeithlon drwy harneisio technolegau newydd arloesol i symleiddio prosesau a lleihau ffrithiant, mae hynny'n rhywbeth y gall Llywodraeth Cymru ei gefnogi. Fodd bynnag, bydd am gael sicrwydd bod pwysigrwydd digonol yn cael ei roi ar ei chyfrifoldebau strategol hirdymor i ddiogelu iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion yn y wlad hon.

1.2 Rhag-hysbysu

Mae'n hanfodol bod Gweinidogion Cymru, sy'n gyfrifol am fiogelwch, diogelwch bwyd a rheolaethau iechydol a ffytoiechydol yng Nghymru, yn deall maint, natur a phroffil risg cynhyrchion sy'n cael eu mewnforio trwy borthladdoedd Cymru. Mae hynny hefyd yn allweddol i bartneriaid awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am swyddogaethau iechyd porthladdoedd yng Nghymru.

Roedd Rheoliadau Rheolaethau swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2021 yn cynnwys diwygiadau i ddarpariaethau'r OCR¹ i eithrio rhai cynhyrchion o ynys Iwerddon rhag y gofyniad i rag-hysbysu. Mae penderfyniad Llywodraeth y DU i eithrio'r cynhyrchion hyn o'r gofyniad rhag-hysbysu wedi achosi bwch data i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol nad yw wedi bod yn bosibl ei lenwi yn foddhaol trwy ffynonellau eraill.

Mae diffyg data yn amharu ar gynllunio a datblygu rheolaethau ffin a gweithrediadau cysylltiedig yng Nghymru. Mae wedi rhwystro dadansoddiad ystyrlon o effaith cynigion sy'n ymddangos yn y Model Gweithredu Targed ar y seilwaith a'r adnoddau fydd eu hangen yn y dyfodol i alluogi safleoedd rheoli ffin i wasanaethu porthladdoedd Caergybi, Doc Penfro ac Abergwaun a chynnal archwiliadau iechydol a ffytoiechydol yn effeithlon pan ddônt i rym yn y pen draw.

Felly, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru eu bwriad i gyflwyno deddfwriaeth i ddileu'r eithriad rhag-hysbysu ar rai categorïau ychwanegol o gynhyrchion SPS a fewnforir i Gymru o Weriniaeth Iwerddon (GI) o 1 Ionawr 2023.

Byddai hyn yn golygu y byddai angen i fewnforwyr cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, cynhyrchion planhigion hysbysadwy a rheoledig nad ydynt ar hyn o bryd yn destun rhag-hysbysu a rhai sgil-gynhyrchion anifeiliaid, a fewnforir i Gymru o Weriniaeth Iwerddon, nodi ychydig o wybodaeth am eu llwythau yn y system IPAFFS ar-lein. Ni fyddai angen unrhyw waith papur nac ardystiad. Bydd mewnforwyr sydd hefyd yn delio â mewnforion o dir mawr yr UE yn gyfarwydd â'r gofyniad hwn.

2. Ymgynghoriad

2.1 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad rhwng 27 Hydref a 11 Tachwedd 2022 yn gofyn am farn cyrff a phersonau sy'n cynrychioli buddiannau'r rhai sy'n ymwneud â mewnfario cynhyrchion SPS i Gymru ar gynigion i ddiwygio'r rheolau:

- estyn y cyfnod pontio fel na fydd rhagor o fesurau rheoli SPS sydd i fod i ddod i rym ym mis Ionawr 2023 yn cael eu cyflwyno hyd 31 Ionawr 2024.
- i gael gwared ar yr eithriad ar y gofyniad i rag-hysbysu ar rai categorïau ychwanegol o gynhyrchion SPS a fewnforir o Weriniaeth Iwerddon o 1 Ionawr 2023.

Targedwyd yr ymgynghoriad at randdeiliaid allweddol yn y sectorau amaeth, cludo, bwyd a masnach, gan gynnwys sefydliadau cynrychioliadol, grwpiau buddiant ac awdurdodau lleol/Awdurdodau lechyd Porthladdoedd. Roedd yn gyfle i ddarparu sylwadau ar effaith diwygio'r llinell amser ar gyfer cyflwyno rheolaethau yn raddol ac effaith bosibl peidio â deddfu i ddiwygio'r rheolau.

Ymgynghorwyd yn uniongyrchol â 69 o sefydliadau, busnesau ac unigolion, ac ehangwyd y gwahoddiad drwy Rwydwaith Clwstwr Bwyd Llywodraeth Cymru a Grŵp Cynghori lechyd Planhigion Cymru. Cafodd yr ymgynghoriad hefyd ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ar [Rheolaethau a seilwaith ffiniau ar ôl ymadael â'r UE | LLYW.CYMRU](#) a'i hyrwyddo drwy sianeli Busnes Cymru. Roedd yr ymatebwyr yn gallu cyflwyno eu sylwadau yn Gymraeg neu Saesneg drwy e-bost at BorderInfrastructureProgramme@gov.wales.

2.2 Ar ddiwedd yr ymgynghoriad, roedd Llywodraeth Cymru wedi derbyn 15 ymateb:

Ymatebwr	Nifer yr ymatebion
Awdurdod Porthladd	2
Gweithredwr fferi	1
Awdurdod Lleol	1
Sector cludo nwyddau - sefydliad cynrychioliadol	1
Sector amaeth - sefydliad cynrychiadol	2
Sector milfeddygol - sefydliad cynrychiadol	1
Sector bwyd - sefydliad cynrychiadol	2
Sector busnes - sefydliad cynrychiadol	1
Sector cludo nwyddau - busnes unigol	1
Sector bwyd – busnes unigol	2
Unigolyn	1
Cyfanswm	15

2.3 Yn ogystal â'r ymatebion ffurfiol a dderbyniwyd, derbyniodd swyddogion Llywodraeth Cymru adborth ar y cynigion mewn trafodaethau anffurfiol gyda Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU a'u Hadran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac Is-adran Brexit a Masnach Ryngwladol Llywodraeth Iwerddon yn yr Adran Amaeth, Bwyd a'r Môr.

3. Crynodeb o'r ymatebion

Bwriad y ddogfen hon yw rhoi crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ei chynigion i gyflwyno deddfwriaeth:

- i estyn y cyfnod pontio fel na fydd rhagor o fesurau rheoli SPS sydd i fod i ddod i rym ym mis Ionawr 2023 yn cael eu cyflwyno hyd 31 Ionawr 2024.
- i gael gwared ar yr eithriad ar y gofyniad i rag-hysbysu ar rai categorïau ychwanegol o gynhyrchion SPS a fewnforir o Weriniaeth Iwerddon o 1 Ionawr 2023.

Nid yw'r ddogfen yn cofnodi manylyn pob pwynt a godwyd gan ymatebwyr, ond mae pob ymateb wedi cael ei ystyried yn ofalus ac mae'r ddogfen hon yn cyfleu'r negeseuon allweddol. Codwyd sawl mater nad oedd yn cysylltu'n uniongyrchol gyda phwnc yr ymgynghoriad. Rydym wedi nodi'r materion hyn ond heb eu hystyried mewn unrhyw fanylder o fewn y crynodeb hwn.

3.1 Trosolwg o'r ymatebion

- O ran y cynnig i estyn y cyfnod graddoli trosiannol tan 31 Ionawr 2024, roedd yr ymatebwyr yn deall yn fras yr angen am yr estyniad o ystyried arwyddocâd archwiliadau mewnforio llawn a phwysau'r gadwyn gyflenwi. Mynegodd y rhan fwyaf (12) gefnogaeth gyffredinol i'r newidiadau arfaethedig, ond mynegwyd rhai amheuan megis y diffyg tegwch parhaus o ran cymhwyso rheolaethau ffin i allforwyr Prydain Fawr i'r UE o'i gymharu rhai sy'n mewnforio i Brydain Fawr. Ni fynegodd ambell un (3) o ymatebwyr farn na rhoi sylwadau ar y cynnig yn eu hymatebion.
- O ran y cynnig i ddileu'r eithriad ar rai cynhyrchion SPS a fewnforiwyd o Weriniaeth Iwerddon, roedd ychydig o ymatebwyr (2) yn cefnogi a bron i hanner yr ymatebwyr (6) heb fynegi barn na rhoi sylwadau ar y cynnig yn eu hymatebion. Fodd bynnag, cododd 7 ymatebydd bryderon ynghylch yr amseru, gan ofyn a fyddai data rhag-hysbysu yn darparu gwybodaeth ddigon cadarn a darparu sylwadau ar y baich a'r gost ychwanegol tybiedig i fusnesau ymgymryd â'r gofynion. Roedd rhai hefyd yn gwneud sylwadau am y risg o ddargyfeirio masnach a diffyg tegwch gyda phorthladdoedd eraill Môr Iwerddon.

3.2 Estyn cynnig y cyfnod graddoli trosiannol

- O'r 15 ymateb a gafwyd, mynegodd y rhan fwyaf (12) gefnogaeth gyffredinol i'r cynnig i estyn y cyfnod graddoli trosiannol tan 31 Ionawr 2024. Nid oedd gweddill yr ymatebwyr (3) wedi mynegi barn nac wedi cynnig sylw ar y cynnig.

Rhoddodd yr ymatebwyr sylw ar y materion canlynol:

3.2.1 **Tarfu ar farchnadoedd** (4 ymatebwr)

- Roedd angen yr estyniad er mwyn osgoi drysu masnachwyr a rhag rhwystro marchnadoedd mewnol y DU.

- Dylai Llywodraeth Cymru aros i'r Model Gweithredu Targed (TOM) gael ei gyhoeddi cyn gweithredu unrhyw newidiadau pellach.
- Pe na bai'r estyniad yn cael ei gyflwyno, ni fyddai digon o amser ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfathrebu gyda'r diwydiant masnach ehangach.
- Mae gan fewnforwyr yr UE fantais gystadleuol dros allforwyr o'r DU i'r UE. Bydd estyn y TSP yn estyn yr anghydbwysedd hwn rhwng allforwyr y DU a mewnforwyr o'r UE.

3.2.2 Amseru (4 ymatebwr)

- Doedd dim digon o amser i fusnesau baratoi, felly estyniad oedd yr unig gwrs posib i weithredu.
- Mae dyddiad yr estyniad arfaethedig, sef 31 Ionawr 2024 yn osgoi'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.
- Amlygodd rhanddeiliaid fod cefnogaeth i oedi cyflwyno rheolaethau hyd ddiwedd Chwarter1 2024, fel yr adlewyrchir yn adborth ymgysylltu blaenorol Llywodraeth y DU â rhanddeiliaid.

3.2.3 Seilwaith rheoli ffin (2 ymatebwr)

- Nododd rhanddeiliaid, gan nad oedd yr isadeiledd wedi ei gwblhau yng Nghymru eto, bod y cynnig i gyflwyno'r estyniad wedi ei ragweld.
- Cydnabuwyd hefyd y byddai peidio â chyflwyno'r estyniad yn rhoi cryn bwysau ar Lywodraeth Cymru i adeiladu cyfleuster dros dro.

3.2.4 Cyfundrefn cydlynol Prydain Fawr (4 ymatebwr)

- Dylai'r amserlen gyd-fynd ag amserlen porthladdoedd Lloegr a'r Alban.
- Cafodd pryderon ynglŷn â bioddiogelwch hefyd eu mynegi yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Ond, roedd yr ymatebwyr yn cydnabod na fyddai'n gwneud synnwyr i Gymru gyflwyno archwiliadau yn annibynnol.

3.2.5 Darparu Adnoddau (3 ymatebydd)

- Mae'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd yn annigonol. Pe na bai'r estyniad yn cael ei gyflwyno, byddai pwysau ar rhanddeiliaid i ddatblygu gweithdrefnau gweithredu ar frys ac i recriwtio a hyfforddi staff.

3.2.6 Integreiddio systemau TG (1 ymatebwr)

- Mynegodd un ymatebwr bryderon am ddibynadwyedd y system IPAFFs a'r risg o oedi cyflwyno archwiliadau rheoli ffin nes bod technoleg newydd yn cael ei datblygu.

3.2.7 Risgiau parhau i oedi cyflwyno rheolaethau (3 ymatebwr)

- Amlygodd rhanddeiliaid y gallai oedi cyn cyflwyno rheolaethau gael sgil-efeithiau difrifol ar ddiogelu iechyd pobl, anifeiliaid, a phlanhigion.
- Nododd rhanddeiliaid y gallai peidio â darparu seilwaith yng Nghymru yn fuan achosi niwed i enw da a gwrthwynebiadau cyfreithiol.
- Er y cydnabyddir a derbynnir y rhesymeg ar y cyfan dros estyn y TSP, fe wnaeth yr ymatebwyr bwysleisio na ddylai'r penderfyniad hwn rwystro darparu seilwaith parhaol yng Nghymru.

Ymateb y Llywodraeth (estyn y cyfnod graddoli trosiannol)

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar iawn i bawb a roddodd o'u hamser a'u hymdrech i ymateb i'r ymgynghoriad a rhannu eu syniadau ar y cynnig i estyn y cyfnod trosiannol fel na fydd y mesurau SPS oedd i fod i ddod i rym ym mis Ionawr 2023 yn cael eu cyflwyno tan 31 Ionawr 2024.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y materion posibl a godwyd drwy gyfrwng yr ymgynghoriad ynglŷn â gweithredu'r cynnig hwn, gan gynnwys y pryderon ynghylch bioddiogelwch; y fantais gystadleuol sydd gan fewnforwyr yr UE dros allforwyr yn y DU; a darparu cyfleusterau parhaol yng Nghymru. Fodd bynnag, credwn fod y risg tymor byr i fioggiogelwch gyda chynhyrchion sy'n tarddu'n bennaf o Iwerddon, gwlad sydd â hanes bioddiogelwch da, yn oddefadwy tra bod y drefn ar y ffin yn cael ei chwblhau a chyfleusterau rheoli ffin yn cael eu hadeiladu.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi y gallai allforwyr deimlo eu bod yn cael eu trin yn annheg, fodd bynnag, ni allwn reoli'r driniaeth y maent yn ei derbyn y tu hwnt i'n ffiniau a gallwn roi sicrwydd y bydd archwiliadau ar fewnforion yn cael eu gweithredu cyn gynted â phosibl. Does neb eisiau gostwng safonau bioddiogelwch a diogelwch bwyd. Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad fod yr ymatebwyr yn deall yn fras yr angen am yr estyniad o ystyried arwyddocâd archwiliadau mewnforio llawn a phwysau ar y gadwyn gyflenwi, a mynegwyd cefnogaeth gyffredinol gan y rhan fwyaf i'r newidiadau arfaethedig.

Ar ôl ystyried pob un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno estyniad i'r cyfnod graddoli trosiannol tan 31 Ionawr 2024. Bydd estyniad pellach i'r cyfnod graddoli trosiannol yn caniatáu i Lywodraeth Cymru barhau i weithio gyda llywodraethau eraill y DU i gwblhau a gweithredu'r *Model Gweithredu Targed*, er mwyn sicrhau system gydlynol, effeithiol ac effeithlon o reolaethau, a thrwy hynny wella bioddiogelwch a lleihau'r effaith ar fewnforwyr. Os penderfynir cyflwyno unrhyw archwiliadau cyn y dyddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i roi hysbysiad am newidiadau er mwyn i fusnesau a rhanddeiliaid eraill allu paratoi.

Rhagwelir y bydd deddfwriaeth debyg i estyn y cyfnod graddoli trosiannol yn cael ei chyflwyno i ddod i rym yn Lloegr a'r Alban.

4. Y cynnig i gyflwyno gofyniad i rag-hysbysu

O'r 15 ymateb a gafwyd i'r ymgynghoriad, roedd dau ymatebydd yn cefnogi'r cynnig tra na fynegodd bron eu hanner (6) eu barn na chynnig unrhyw sylw. Roedd saith o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynigion oherwydd materion ynghylch yr amseru, y baich a'r gost ychwanegol tybiedig i fusnesau ymgymryd â'r gofynion, y cwestiwn ynghylch a fyddai'r data rhag-hysbysu yn darparu gwybodaeth ddigon cadarn, a'r risg o ddargyfeirio masnach oherwydd diffyg tegwch.

Rhoddodd yr ymatebwyr sylw ar y materion canlynol:

4.1.1 Data amgen (4 ymatebwr)

- Mynegodd rhanddeiliaid eu parodrwydd i gydweithio â Llywodraeth Cymru i ddarparu rhagor o wybodaeth a data.
- Roedd rhanddeiliaid yn cwestiynu a oedd gan Lywodraeth Cymru fynediad at ffynonellau eraill o ddata megis data mewnfario Llywodraeth y DU.
- Er bod angen data ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y BCPs gafodd eu hadeiladu yng Nghymru yn ateb y galw disgwylidig ac anghenion yn y dyfodol, ni allai hyn ddod ar draul llif masnach trwy borthladdoedd Cymru.

4.1.2 Diffygion data IPAFFS a'r system hysbysu (5 ymatebwr)

- Mynegodd rhanddeiliaid bryderon ynghylch sut y byddai Llywodraeth Cymru'n dilysu'r data heb wirio cynhyrchion yn ffisegol.
- Amlygwyd problemau gan rhanddeiliaid ynghylch y system IPAFFs, yn arbennig y gofyniad gan y system bod gan fewnforydd neu asiant o Brydain Fawr gyfeiriad yn y DU (bydd hyn yn her i fewnforwyr o Iwerddon); mae'r cofnod IPAFFs yn cael ei sbarduno gan y gofyniad i gael tystysgrif iechyd, ond ar hyn o bryd nid yw tystysgrif iechyd yn ofyniad rhagosodedig cyfredol ar gyfer symudiadau'r UE i Brydain; ni fyddai'r data'n cynnwys gwybodaeth am gynhyrchion sy'n cael eu symud o Weriniaeth Iwerddon i Brydain Fawr trwy Ogledd Iwerddon; a byddai gwerth y data'n cael ei effeithio gan lefelau isel posibl o gydymffurfio gan fasnachwyr.
- Mynegwyd pryderon hefyd am statws cyfreithiol y gofyniad i rag-hysbysebu, yn enwedig a fyddai mewnfario yn anghyfreithlon pe na bai'r cofnod IPAFFs yn cael ei ddilysu.

4.1.3 Trin Lerpwl yn yr un modd / risg o ddargyfeirio masnach (4 ymatebwyr)

- Gallai'r gwahanol weithdrefnau ffin swyddogol ar gyfer llwybrau sy'n gwasanaethu Gweriniaeth Iwerddon/Cymru o'i gymharu â'r llwybrau sy'n gwasanaethu Gweriniaeth Iwerddon/Lloegr darfu trwy ystumio'r fasnach a chreu anhegwch.
- Tynnodd rhanddeiliaid sylw at sut y byddai hyn yn broblematig i weithredwyr fferi sy'n gweithredu rhwng y Weriniaeth/Cymru, gan y

bydd y newid yn rhoi porthladdoedd a gwasanaethau fferi'r Weriniaeth/Cymru o dan anfantais gystadleuol i'w cymheiriaid sy'n gweithredu rhwng y Weriniaeth/Lloegr.

4.1.4 **Cost a baich gweinyddu** (3 ymatebwr)

- Mae Porthladd Dulyn yn codi tâl am ddilysu IPAFFs. Gofynnwyd ai dyma fydd y sefyllfa ym Mhorthladdoedd Cymru.
- Mynegodd rhanddeiliaid bryderon ynghylch y costau y bydd angen eu hysgwyddo o ganlyniad i asiant yn mewnbynnu data ar gyfer cofnodion IPAFFS o Weriniaeth Iwerddon.

4.1.5 **Cyfundrefn anghyson ym Mhrydain Fawr/ cysondeb â Llywodraeth y DU a'r Alban** (2 ymatebwr)

- Nododd rhanddeiliaid eu bod am weld cysondeb â'r dull gweithredu gan Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU.
- Dylai fod trefn unedig ar y ffin ledled y DU i sicrhau tegwch ac i osgoi tarfu ar fasnach.

4.1.6 **Cyfnod rhybudd, amser rhagarweiniol byr** (4 ymatebwr)

- Roedd ymatebion yn cydnabod, er y gallai rhai mewnforwyr sy'n delio â chynhyrchion o dir mawr yr UE feddu ar rywfaint o brofiad o ymdrin ag IPAFFs, bod nifer o fewnforwyr heb brofiad ac y byddai angen digon o amser arnynt i baratoi.
- Mae amseriad y newid yn niweidiol gan mai'r Nadolig yw un o'r cyfnodau pwysicaf yn fasnachol i ddefnyddwyr a rhanddeiliaid sy'n ymwneud â mewnfario bwyd.
- Gyda chyfyngiadau ehangach ar y diwydiant masnach, gan gynnwys effaith y pandemig a'r argyfwng costau byw, mae angen amser rhagarweiniol hirach ar fusnesau i ymgysylltu â'r diwydiant a pharatoi ar gyfer unrhyw newidiadau, yn enwedig o ran recriwtio/hyfforddi staff a diweddarau prosesau gweithredu.

4.1.7 **Diffyg gorfodi a gwrthwynebiad masnachwyr, busnesau** (2 ymatebwr)

- Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu'n agos â DEFRA, awdurdodau GI, cyrff masnach Iwerddon a'r Comisiwn Ewropeaidd i leihau gwrthwynebiad i'r cynigion.
- Mae masnachwyr Gweriniaeth Iwerddon yn debygol o fynegi rhywfaint o wrthwynebiad i'r newidiadau.
- Dylai Llywodraeth Cymru wneud datganiad cyhoeddus ffurfiol i gyflwyno'r newid.

4.1.8 **Diffyg cydymffurfio** (2 ymatebwr)

- Mynegodd rhanddeiliaid bryderon ynghylch y weithdrefn ar gyfer delio â chofnodion IPAFF anghyflawn a/neu anghywir, yn benodol a fyddai mynediad yn cael ei atal i'r cynhyrchion hynny, neu a fyddent yn cael eu hystyried yn anghyfreithlon.

4.1.9 **Aros hyd cyhoeddi'r Model Gweithredu Targed (TOM)** (2 ymatebwr)

- Tynnodd rhanddeiliaid sylw at y ffaith iddi fod yn gyfnod heriol i'r diwydiant masnach, gydag oedi a nifer o newidiadau. Felly, mae rhanddeiliaid yn aros i'r TOM gael ei gyhoeddi cyn gwneud unrhyw addasiadau pellach i'w busnesau a'u sefydliadau.

4.1.10 **Rhesymau o blaid y cynigion i gyflwyno rhag-hysbysu gan ymatebwyr oedd yn eu cefnogi:**

- Roedd dau ymateb o blaid cyflwyno gofyniad i rag-hysbysu ac fe nodwyd ganddynt bod hyn oherwydd y cyfle i rannu data, bioddiogelwch a modelu costau a staffio. Fodd bynnag, codwyd pryder nad oedd unrhyw waith papur na gofyniad i ardystio.

Ymateb y Llywodraeth (gofyniad i rag-hysbysu)

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar iawn i bawb a roddodd o'u hamser a'u hymdrech i ymateb i'r ymgynghoriad a rhannu eu syniadau ar y cynnig i ddileu'r eithriad ar y gofyniad i rag-hysbysu o 1 Ionawr 2023.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryderon a leisiwyd gan rhanddeiliaid ynghylch yr amser rhagarweiniol sydd ar gael i baratoi at y gofyniad i rag-hysbysu mewnforyn o 1 Ionawr 2023. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymwybodol iawn o'r cyfyngiadau ar adnoddau busnesau a'r diwydiant masnach ehangach o gwmpas cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Felly, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu gohirio dileu'r eithriad ar y gofyniad i rag-hysbysu ar y categorïau ychwanegol hyn o gynhyrchion SPS a fewnforir i Gymru o Weriniaeth Iwerddon tan yn ddiweddarach yn 2023. Fodd bynnag, nid yw oedi penagored yn opsiwn – bydd angen rhag-hysbysu yn y pen draw, a byddai'n llawer gwell gennym ei gyflwyno cyn i'r archwiliadau adnabod a ffisegol cyflawn gael eu cyflwyno mewn safleoedd rheoli ffin er mwyn rhoi amser i fusnesau ac asiantaethau ymgysylltu â'r trefniadau a lleihau unrhyw oedi ar y ffin sy'n deillio o gamgymeriadau.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod manteision cytuno ar ddyddiad cyffredin i ddileu'r eithriad ar y gofyniad i rag-hysbysu ar gyfer porthladdoedd arfordir y gorllewin sy'n mewnforyn cynhyrchion o Iwerddon ac mae'n parhau i fod mewn deialog â Llywodraeth y DU ar y pwnc hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu'n agos â'r holl rhanddeiliaid ar y mater hwn ac yn ymrwymo i hysbysu'r diwydiant cyn cyflwyno'r gofynion.